Merthyr Tydfil Global Village - Pentref Byd-Eang Merthyr Tudful

Charity Registration number: 1136982

Celebrating the Diversity of Merthyr Tydfil – Dathlu Amrywiaeth Merthyr Tudful

Telerau, Amodau a Cheisiadau ar gyfer Pentre Byd Eang

Mae'r ymgeisydd yn cytuno i gydymffurfio gyda Telerau ac Amodau sydd wedi ei amlinellu yma. Mae ymddiredolwyr Pentre Byd Eang yn gofyn am gydweithrediad llawn gan yr holl gyfranogwyr.

Categoriau Cyfarogwyr

Perfformiwr Llwyfan (Ddim yn cynhyrchu incwm)	Perfformiwr Llwyfan (Cynhyrchu incwm)
Darparwr Gweithdy (Ddim yn cynhyrchu incwm)	Darparwr Gweithdy (Cynhyrchu incwm)
Gwirfoddolwr	Noddwr
Gwerthwr Bwyd	Stondin (Cynhyrchu incwm)
Stondin / Arddangoswr Corff Cyhoeddus	Stondin / Arddangoswr Sefydliad Di-Elw (Ddim yn cynhyrchu incwm)

Cymhwyster:
Mae gan ymddiredolwyr Pentref Byd Eang Merthyr Tudful yr hawl i benderfynu priodoldeb unrhyw berson i gymryd rhan yn yr ŵyl. Yr ymddiredolwyr yn unig fydd yn penderfynu os yw person yn addas i arddangos / cyfranogi yn yr ŵyl a mae ganddynt yr hawl i atal unrhyw un rhag cymryd rhan.

Anghenion, Costau a Gofod

- Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno ei cais mewn llaw ysgrifen ynghyd a blaendal, cyn y dyddiad cau, sydd wedi ei nodi ar y wefan.
- Gofynnir am dâl na ellir ei ad-dâlu gan yr ymgeiswyr isod:

	Daliwr Stondin Cynhyrchu Incwm	Daliwr Stondin Ddim yn cynhyrchu Incwm	Gwerthwr bwyd-bwyd oer	Gwerthwr Bywd - bwyd poeth
1 bwrdd a 2 gadair	£20	£5	£25	£50
2 fwrdd a 2 gadair	£30	£10	£30	£60
Cadeiriau ychwanegol (i'w defnyddio o fewn ardal penodol)	£1yr un	£1yr un	£1yr un	£1yr un
Tu allan i'r babell	£30 (yn cynnwys 1 bwrdd a 2 gadair)	£10 (yn cynnwys 1 bwrdd a 2 gadair)	-	£50 (yn cynnwys 2 fwrdd a 2 gadair)
Faniau Arlwyo*	-	-	-	£50

Mi fydd barbeciwiau a cherbydau arlwyo y tu allan i'r babell.

Mae'n rhaid i ymddiredolwyr PBE gymredwyo unrhyw gasibos a faniau, cyn y digwyddiad.

Rhaid archebu gasibos o flaen llaw.

- Dyliau Gwerthwyr Bwyd gael Tystysgrif Glendid Bwyd Lefel 2 neu uwch. Os nad ydynt yn cyraedd y safon yma, ni fyddant yn gymwys ar gyfer ad-dailiad.
- Os yn berthnasol, mi fydd rhaid i Werthwyr Bwyd arddangos Tystysgrif Nwy.
- Mae'n rhaid i Werthwyr Bwyd gael cyfleusterau golchi dwylo eu hunain.
- Mi fydd PBE yn gorchuddio'r byrddau yn y babell fwyd gyda lliain papur.
- Mae dyddiad cau cyflwyno cais, cost a'r Tystysgrifau perthnasol yn cael eu amlinellu ar y wefan.

<u>Pŵer Trydan</u>

Mae'n rhaid nodi unrhyw anghenion trydanol ar y ffurflen gais. Rhaid i'r holl offer trydanol gael prawf (PAT). Ni all PBE sicrhau socedi trydan i bawb.

Mi fydd Trydan yn cael ei cyflenwi yn nôl yr isod:

Y cytundeb yw i gyflenwi pŵer sylfaenol – cebl unigol gyda dau gylched 15 AMP. (Dau blwg a ellir ei defnyddio i redeg dau degell neu un meicrodon, neu cyfarpar arall e.e Fideo, Gliniadu, neu gyfarpar arddangos arall.

Pryderon Diogelwch:

- Mae'n rhaid i'r holl gyfarpar yn cynnwys gwifrau estyniad fod wedi cael prawf PAT.
- Cyfrifoldeb Arddangoswyr / Defnyddwyr yw darparu ceblau estyniad.
- Mae'n rhaid i geblau, gwifrau a chyfarpar gyraedd safonnau Diogelwch a Ansawdd.
- Mae'n rhaid i wifrau trydan gael ei lleoli yn ddiogel fel nad ydynt yn achosi perygl i arddangoswyr eraill neu ymwelwyr.
- Er mwyn osgoi damweiniau rhaid i werthwyr sicrhau fod gwifrau estyniad o'r prif pŵer wedi ei gorchyddio gyda thâp.

Ardal Arddangos – Adeiladu a Rheolau

Gall arddangoswyr a gwerthwyr ddarparu canopy, gasibo neu gerbyd arlwyo eu hunian os ydynt wedi eu awdurdodi o flaen llaw.

Adnoddau wedi eu argraffu a Arwyddio

Mae dosbarthu gwybodaeth a deunyddiau marchnata wedi ei gyfyngu i'r man sydd wedi glustnodi i'r cyfranogwr.

- Dyliau deunyddiau marchnata ganolbwyntio ar addysg a ewyllus da, yn hytrach na chanolbwyntio a'r newid meddyliau pobl ar rhoi pwysau arnynt.

Rheoli eich Ardal Arddangos a Staff yr Ardal Arddangos

- Mae'n ofynol fod unigolion sy'n staffio ardal arddangos yn cofrestru gyda PBE wrth gyrraedd.
- Mi fydd pob cyfranogwr yn gyfrifol am gydymffurfio gyda rheolau Iechyd, Tân a Diolgelwch.
- Mae'n ofynol oherwydd Rheolau Tân fod yr ardal o amgylch yr ardal arddangos yn cael ei gadw'n glir. Ni ellir rhoi eitemau arddangos ar linell yr ardal arddangos.
- Ni chaniateir i gyfranogwyr neilltuo neu is-osod eu safle neu rhan o'r safle i eraill, na hysbysebu neu arddangos nwyddau neu wasanaeth nad ydynt yn gynhyrchu, gwerthu neu ddosbarthu yn rheolaidd fel rhan o'i busnes.
- Mae'n rhaid i aelodau o staff cymwys fod yng ngofal yr arddangosfa drwy gydol y dydd.

Cerddoriaeth, Lluniau a Hawlfraint

Cyfrifoldeb y cyfranogwyr yw sicrhau fod ganddynt ganiatad a'r trwyddedau cywir er mwyn defnyddio cerddoriaeth, lluniau neu deunyddiau eraill sydd a dan hawlfraint.

Amser - Paratoi

- Mae'n rhaid i gyfranogwyr baratoi ei safle yn ystod amser penodedig **9:00yb – 10:30yb** ar fore y digwyddiad. Gall hyn newid, felly mae'n bwysig fod rhif ffôn symudol ar gael, er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.
- Mi fydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn cyfarwyddiadau am lwytho, map o'r lleoliad, a gwybodaeth am y fynedfa a'r allanfa.
- Os oes ardaloedd arddangos gwag am 10:00yb ar ddiwrnod y digwyddiad, mi fydd rhain yn cael ei neulltio i ymgeiswyr eraill, os nad yw PBE yn ymwybodol o amgylchiadiau anodd.

Amser -Tynnu lawr

- Mae'n ofynnol fod yr holl gyfranogwyr yn aros tan ddiwedd y sioe tua **5.30yh** ar ddiwrnod y sioe. (Hoffai PBE ddenu sylw cyfranogwyr at y ffaith y gallu yr amser yma gael ei ymestyn oherwydd amseru perfformiadau byw).
- Ni chaniateir i arddangosfeydd gael ei tynnu lawr neu ei symud yn gyflawn neu yn ddarnau cyn diwedd swyddogol y sioe.
- Os yw arddangoswr/ cyfranogwr yn cau ei ardal cyn yr amser a nodwyd uchod maent yn peryglu ei cyfle i gymryd rhan yn y dyfodol.

- Mae'n ofynol fod cyfranogwyr wedi cadw pob dim ac wedi symud unrhyw gyfarpar erbyn **7.00yh**, ar ddiwrnod yr Ŵyl.

Difrod i leoliad yr Ŵyl

- Mae'n ofynol fod cyfranogwyr yn gadael eu safle yn y cyflwr yr oedd pan gyrhaeddon nhw (Glan a Thaclus)
- Y cyfranogwyr sy'n gyfrifol am unrhyw ddifrod, glendid yr ardal neu'r ofod a chasglu sbwriel.
- Dyliau cyfranogwyr ddeall nad yw PBE yn gyfrifol am unrhyw hawliadau y gall godi yn dilyn neu mae cysylltiad â'i gweithgaredd yn yr ŵyl.

Perfformwyr a Darparwyr Gweithdai

- Mae'n ofynol fod perfformwyr a darparwyr gweithdai yn cyrraedd 45 munud cyn ei perfformiad.
- Byddwch yn ymwybodol y gall eitemau gor-redeg.
- Nid yw PBE yn gyfrifol am unrhyw eiddo, offerynnau ayyb, sy'n mynd ar goll yn yr Ŵyl.
- Chi'n sy'n gyfrifol am eich diogelwch eich hun. Mi fydd ymddiredolwyr PBE yn gwneud pob dim o fewn eu gallu i sicrhau digwyddiad diogel, ond nid ydym yn cymryd cyfrifoldeb am yr hyn sydd tu hwnt i'n rheolaeth.
- Athrawon / Rhieni / Gwarchodwyr sy'n gyfrifol am sicrhau fod pobl ifanc yn cyrraedd ar amser a'i bod nhw'n ddiogel.

Gwirfoddolwyr

- Gofynnir i wirfoddolwyr fod yn brydlon a ymgymryd a dyletswyddau gyda gofal a ymrwymiad.
- Nid yw PBE yn gyfrifol am unrhyw eiddo sy'n mynd ar goll.
- Mi fydd PBE yn gwneud pob dim o fewn eu gallu i sicrhau eich bod yn cael egwyl. Siaradwch gyda aelod o staff os ydych yn teimlo fod angen egwyl arnoch.

Yswiriant

Gofynnir i bob cyfranogwr ddangos tystiolaeth i PBE fod ganddynt yswiriant ateblorwydd cyhoeddus er mwyn gweithredu yn y digwyddiad. Mi fydd hi hefyd yn ofynnol i gyfranogwyr wneud asesiad risg. (Gweler ffurflen gais).

Cyffredinol

Byddwch yn ymwybodol o amodau tywydd ar y diwrnod a gwisgwch yn addas.
Nid yw PBE yn cyflenwi dŵr yfed, eli haul na tocynnau bwyd (eithro gwirfoddolwyr).
Mae staff a gwirfoddolwyr PBE yn gwisgo siacedi lliwgar.
Mae unrhyw faterion neu gwestiynnau sydd ddim yn gynwysiedig yn y Telerau ac Amodau yma yn fater ar gyfer ymddiredolwyr PBE.
Mae'r Telerau ac Amodau yma yn rhwymo cyfranogwyr gyda'r ŵyl. Gall y Telerau ac Amodau yma gael ei newid ar unrhyw adeg.
Mi fydd PBE yn ymdrechu i ymateb i ofynnion pob unigolyn, ond ni ellir sicrhau hyn.

Cysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiynnau neu sylw am y Telerau ac Amodau yma, cysylltwch â ni

ebost: festival@merthyrtydfilglobalvillage.org.uk neu ysgrifennwch at:

Merthyr Tydfil Global Village, c/o Merthyr Tydfil Housing Association,

11/12 Lower High Street, Merthyr Tydfil CF47 8EB

Ffurflen Gais:

Gofynnir i bod cyfranogwr gwbwlhau, arwyddo a chyflwyno ffurflen gais er mwyn cymryd rhan yn Mhentref Byd Eang Merthyr Tudful. Mae pob ffurflen gais yn ffurfio rhan o'r Telerau ac Amondau yma.

Argraffwch 2 gopi o'r ffurflen yma, arwyddwch a gyrrwch gyda'r ffurflen gais a taliad.

Cytunaf i'r Telerau a'r Amodau uchod:

Arwyddwyd .....